OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1660 (Cy.159) (C.56)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006

*Wedi'i wneud - - 21 Mehefin 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 47(5), 52(3), (4) a (6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**) gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol (**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006.

**Diwygio'r Gorchymyn**

**2.** Mae Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005(**3**)yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

Yn lle erthygl 5 rhodder yr erthyglau canlynol—

> "**5.** Daw adran 44(4) i rym ar 23 Mehefin 2006.
>
> **5A.** Daw adran 44(3) i rym ar 1 Medi 2006.".

(**1**) 2004 p.8.
(**2**) Fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Addysg Uwch 2004, adran 52 (4).
(**3**) O.S. 2005/1833 (Cy.149).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*

23 Mehefin 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) 2005 ("Gorchymyn Rhif 2") drwy roi dyddiad dod i rym newydd ar gyfer adran 44(4) o Ddeddf Addysg 2004 (sy'n trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 23 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i drosglwyddo neu ddirprwyo swyddogaethau cymorth myfyrwyr o dan reoliadau a wneir o dan adran 22 o'r Ddeddf honno).

Bydd yr is-adran honno, a oedd i ddod i rym ar 1 Medi 2006 o dan Orchymyn Rhif 2, yn awr yn dod i rym ar 23 Mehefin 2006.